# Cenn@d

MAI 24 2023 — YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* — RHIF 117


## Cofeb newydd i'r Pêr Ganiedydd mewn pryd i groesawu Eisteddfod yr Urdd i Lanymddyfri

Daeth y daith o geisio sicrhau cofeb deilwng i William Williams, Pantycelyn, yn ei dref ei hun yn Llanymddyfri i ben ar 5 Mai eleni wrth i gofeb newydd hardd gael ei dadorchuddio yno. Cyflawnwyd y seremoni gan Cecil Williams, un o ddisgynyddion Pantycelyn, a'i wraig, Cynthia, sydd yn parhau i fyw a ffermio ym Mhantycelyn, Pentre Gwyn, gerllaw Llanymddyfri.

Cafwyd pnawn i'w gofio wrth glywed canu emynau o waith y Pêr Ganiedydd gan Gôr Meibion Llanymddyfri ac anerchiadau ar arwyddocâd ac apêl fyd-eang gwaith William Williams gan yr Athro E. Wyn James a'r Hybarch Randolph Thomas, Cadeirydd Cyngor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd dathlu mawr fod hyn wedi digwydd cyn i Eisteddfod yr Urdd ddod i'r cyffiniau am y tro cyntaf erioed ddiwedd y mis.

Handel Davies, maer y dref, sy'n adrodd yr hanes a arweiniodd at osod y cerflun yn ei le o flaen Canolfan y Gannwyll yn y dref wrth iddo groesawu pawb i'r dadorchuddio:

'Mae'n wirioneddol anhygoel bod Llanymddyfri a'r ardal wedi'u bendithio â chymaint o hanes cyfoethog ar stepen ein drws, ac mae'n deg dweud nad oes digon wedi'i wneud i ddathlu a hyrwyddo hyn dros y degawdau.

'Mae'n bleser gennyf ddweud ein bod, rhwng Cyngor Tref Llanymddyfri a Chyngor Sir Caerfyrddin, dros y blynyddoedd diwethaf wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at gywiro hyn ac yn parhau i wneud hynny, a chyfeiriaf at arwyddion Ogof Twm Siôn Cati, placiau glas y Ficer Prichard, Banc yr Eidion Du a Gwasg y Tonn. Ond, yn ddiamau, digwyddiad heddiw yw'r enghraifft orau o hyn.

'Mae William Williams, Pantycelyn, yn eicon Cymreig ac yn cael ei gydnabod fel emynydd enwocaf Cymru ac un o ffigurau llenyddol mwyaf blaenllaw ein gwlad. Amlygir ei arwyddocâd i Gymru ac i hanes Cymru wrth weld ei gerflun yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, sydd yn sefyll fel un o'r deg ffigwr amlycaf yn hanes ein gwlad: rhai fel Dewi Sant, Hywel Dda, Gerallt Gymro a Llywelyn ein Llyw Olaf.

'Mae'n gwbl briodol felly, o'r diwedd, fod gennym gerflun teilwng i ddathlu statws William Williams, Pantycelyn, yma yn ein tref. Mae wedi bod yn daith chwe blynedd, a ddechreuodd yn 2017 yn ystod blwyddyn dathlu 300 mlynedd ers geni William Williams, Pantycelyn, pan fu rhywfaint o brotest gan ymwelwyr wrth iddynt geisio ymweld â bedd y gŵr mawr.'



Cofeb newydd Pantycelyn




Handel Davies, maer Llanymddyfri, yn llongyfarch y cerflunydd, Gideon Petersen

Bryd hynny, aeth Aled Gwyn Job ati i lunio deiseb ar-lein i geisio sicrhau cofeb i Bantycelyn yn y dref a chasglwyd miloedd o lofnodion yn gyflym iawn. Er gwaethaf sawl cyfarfod, aflwyddiannus fu'r cais i sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru a sawl sefydliad arall, ond yn ffodus iawn, daeth Cyngor Tref Llanymddyfri i'r adwy.

Derbyniodd Gideon Petersen, cerflunydd a gof sy'n gweithio yn sir Benfro, y gwahoddiad i ymgymryd â'r prosiect. Gideon a'i frawd, Toby, oedd yn gyfrifol am lunio'r cerflun godidog o Lywelyn ap Gruffydd Fychan ger y castell yn Llanymddyfri.

'Llwyddwyd i sicrhau caniatâd cynllunio i leoli'r cerflun yn union gerllaw'r Gannwyll, adeilad yr amgueddfa a'r Porth Ymwelwyr, sydd i gyfrif ein bod yn gallu sefyll yma heddiw,' ychwanegodd Handel Davies. 'Rwy'n siŵr y bydd yn denu miloedd i'w weld yn ddiweddarach y mis hwn pan fydd Eisteddfod yr Urdd yn cyrraedd Llanymddyfri am y tro cyntaf erioed.'

Mae gwahoddiad wedi ei estyn inni graffu'n fanylach ar y cerflun a gwerthfawrogi'r gelfyddyd sy'n plethu geiriau a nodau cerddorol, gan gyfleu eu cyflwyno'n aberth pêr o gân a moliant i'r Arglwydd y rhoddodd y Pêr Ganiedydd ei hun i'w wasanaeth yn ŵr ifanc, 21 oed.

### Pantycelyn a'r Pentecost

Bydd yr Eglwys Gristnogol yn dathlu ei phen-blwydd ar y Pentecost y Sul hwn a bydd Eisteddfod ein plant a'n pobl ifanc yn dathlu eu creadigrwydd a'u doniau yn agos at gartref Pantycelyn. A bydded inni weddïo y bydd yr un Arglwydd yn rhoi syched yng nghalonnau cenhedlaeth newydd o bobl ifanc i brofi ei gariad a'i ras a chyflwyno'u:

> ... nwydau fel cantorion,
> oll i chwarae'u bysedd cun
> ar y delyn sydd yn seinio
> enw Iesu mawr ei hun. (*Caneuon Ffydd*, 704)

> Arglwydd, danfon dy leferydd
> heddiw yn ei rwysg a'i rym;
> dangos fod dy lais yn gryfach
> nag all dyn wrthsefyll ddim;
> cerdd ymlaen, nefol dân,
> cymer yma feddiant glân.
> (*Caneuon Ffydd*, 578)

William Williams (1717–91)

*H.P-D.*


Gweddi ar gyfer y Pentecost — **Tudalen 2**

Dathlu'r Pasg yng nghylch Carn Ingli — **Tudalen 3**

Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd — **Tudalen 5**

# Gweddi ar gyfer y Pentecost

## gan Lywydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y Parch. Evan Morgan, Caerdydd



### Gweddïwn:

Ar y Sul arbennig yma rho weledigaeth i ni, O Dduw. Gad i'th Ysbryd ein cyffwrdd, ein siglo o'n difaterwch, a'n sbarduno i weithio'n galetach.

Diolchwn i ti am dy rodd enfawr i'r byd, sef dy fab Iesu a'i neges o gariad, o faddeuant ac o gyfiawnder. Gweddïwn heddiw fod dy Ysbryd di yn rhoi nerth i ni a'n hysgogi i feddwl am eraill ar draws y byd: ein brodyr a'n chwiorydd sydd yng nghanol effeithiau rhyfel a gormes, a'r rhai sydd dan fygythiad gan gymdogion.

Gweddïwn dros y sefyllfa yn y Sudan. Helpa ni fel gwlad ac fel eglwys i roi llais i'r rhai hynny sy'n ffoi a boed i dy ysbryd di feddalu calonnau caled a chreulon.

Gweddïwn dros Taiwan a'n cyfeillion yn yr Eglwys Bresbyteraidd yno. Gwyddom am y bygythiad dyddiol o du Tsieina ac am safiad yr Eglwys dros ddemocratiaeth a chyfiawnder ar hyd y degawdau. Boed i dy ysbryd di roi nerth a dewrder iddynt o ddydd i ddydd a'u cynnal yn eu brwydr.

Gweddïwn dros Myanmar, gwlad sydd wedi cael ei hanghofio gan y byd. Gwyddom am y gyfundrefn ofnadwy sy'n llywodraethu yno gan ddinistrio eglwysi a lladd pobl er mwyn sicrhau grym. Rho dy nerth i'r rhai sydd dan ormes yno, i'w cynnal a'u calonogi.

Gweddïwn am dy nerth i beidio bod yn fewnblyg nac yn gul, ond yn hytrach i edrych allan i'n byd, dy greadigaeth di, er mwyn ymgyrchu, gweddïo a gweithredu dros filoedd sy'n cael eu herlid a'u harteithio ar hyd a lled dy fyd.

Gweddïwn y bydd yr Ysbryd yn adfywio ein haddoliad a bywyd yn ein heglwysi, gan ein hysbrydoli i weithio yn ein cymunedau yng nghanol yr holl ofid a phrinder sydd yn dod yn fwyfwy amlwg. Boed i ni fod yno unwaith eto yn llais i'r rhai sydd yn teimlo fod neb yn gwrando arnyn nhw nac yn dangos consýrn drostyn nhw.

Maddau i ni fel Eglwys am wastraffu ein hegni a'n hamser yn poeni am bethau dibwys yn lle cofio am orchymyn yr Iesu i ni wasanaethu eraill a sicrhau fod dy neges o gariad cynhwysol yn ymestyn i bob un o'n hamgylch.

Bendithia ni yn awr yn dy Eglwys a helpa bob yr un ohonom i ddyfalbarhau ac i fyw mewn cariad ac i ddilyn Iesu gyda chymorth yr Ysbryd Glan.

Rho oleuni, rho ddoethineb,
rho dangnefedd fo'n parhau,
rho lawenydd heb ddim diwedd,
rho faddeuant am bob bai,
triged d'Ysbryd
yn ei demel dan fy mron.

Yn enw Iesu, Bugail mawr y defaid,
Amen

## Capel Williams Pantycelyn, Llanymddyfri SA20 0PU

**Ar agor bob Sul am 11.00 i addoli, croeso arbennig ddydd Sul, 28 Mai, gyda ffocws ar emynau a neges Williams Pantycelyn**

**Ar agor: Llun–Gwener wythnos Eisteddfod yr Urdd, 11.00–16.00**

Llwybr gwybodaeth am Williams Pantycelyn, gan gynnwys posau plant a gwobrau

Lluniaeth ysgafn ar gael

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rob: 07732133370; pantycelynmanna@outlook.com



Mae gwahoddiad hefyd i alw yng Nghanolfan Dreftadaeth Llanwrtyd a'r Cylch. Mae mynediad am ddim ac mae'r Ganolfan, sydd wedi ei lleoli o fewn adeilad hen Gapel yr Annibynwyr, yn llawn o hanes cyfoethog yr ardal. Mae'r ganolfan ar agor o ddydd Iau i ddydd Sul, rhwng 10am a 4pm ac ar ddydd Llun, 29ain Mai.

# Dathlu'r Pasg yng nghylch Carn Ingli

Mae arferiad eglwysi Cylch Carn Ingli o gynnal Cymanfa Ganu i ddathlu'r Pasg yn mynd 'nôl flynyddoedd mawr. Bu'n Gymanfa Llun y Pasg am gyfnod hir iawn, ond er mwyn addasu ar gyfer yr oes, newidiwyd y drefn honno ers tro byd i Gymanfa Sul y Pasg, gyda thair oedfa i ddechrau ac yna dwy – oedfa'r plant ac oedfa'r oedolion.

Ymateb i drefn yr oes fu ei hanes eleni hefyd. Y llynedd, yn dilyn dwy flynedd o bandemig, metrwyd cynnal un oedfa'n unig a honno'n 'Oedfa o Fawl'. Eleni, yn dilyn llwyddiant oedfa 'bob-oed' y llynedd, penderfynwyd parhau â'r drefn honno.

Cymanfa Ganu bob oed a gynhaliwyd yng Nghaersalem, Dyfed, felly, ar fore Sul y Pasg, ond gyda chryn sylw'n cael ei roi i'r plant a'r ieuenctid. Gyda blodau'r Pasg yn harddu'r adeilad, hyfryd iawn oedd gweld y capel yn llawn o bobl o bob oed.

Croesawyd pawb i'r Gymanfa gan Rhydian Howells, un o aelodau ifainc yr eglwys. Llywyddodd yr oedfa'n fedrus ac yn hamddenol ar ei hyd. Chwech o bobl ifainc yr eglwys a gymerodd at y rhannau arweiniol, gyda Hawys, Emyr, Gethin ac Ifan James yn darllen ac Efa a Gwyneth Lewis yn gweddïo.

Cafwyd canu grymus a brwdfrydig, o safon uchel, gan oedolion a phlant, o dan faton yr arweinyddes wadd, Mrs Amanda Lawrence o Abergwaun. Hi oedd i arwain y Gymanfa yng Nghaersalem 'nôl yn 2020 a hi fu'n arwain yr Oedfa o Fawl y llynedd.

Yn ystod y gwasanaaeth cyflwynwyd eitem gan blant yr ysgol Sul ac fe fuon nhw'n rhannu gyda'r gynulleidfa, ar ffurf sgets, yr hyn a ddysgwyd ganddynt yn yr ysgol Sul oddi ar y Nadolig. Gyda'u sylw wedi bod ar Iesu, Mab y Saer, cyflwynwyd y gerdd honno o waith I. D. Hooson gan rai o ferched ifainc y cylch.

Bu'n oedfa hwylus iawn, gyda'r arweinydd wedi paratoi cwis ar gyfer y plant a hwythau'n cael wyau Pasg am atebion cywir. Ar ddiwedd yr oedfa, cyflwynwyd wy Pasg yn rhodd gan y pwyllgor i bob plentyn a pherson ifanc oed ysgol.



Alwyn Daniels, Eleri Morgans, Gwenno Eynon (offerynwyr); Rhydian Howells, llywydd; Menna James, organyddes; Amanda Lawrence, yr arweinydd.



Plant Ysgol Sul Cylch Carn Ingli'n rhannu gyda'r gynulleidfa yr hyn a ddysgwyd ganddynt am blentyndod Iesu



Pobl ifainc Caersalem yn cyflwyno'r rhannau arweiniol



Merched ifainc y cylch yn cyflwyno'r gerdd 'Mab y Saer'


## Undeb Bedyddwyr Cymru

**Cynhadledd yr Adran Gymraeg**
**Eglwys y Tabernacl, Caerdydd**

23–4 Mehefin 2022

## "Pwy yw Hwn?"

Dewch i fwynhau dau ddiwrnod o gymdeithas yng nghwmni eich cyd-Fedyddwyr yn y brifddinas

Oedfaon a sesiynau o dan arweiniad
Olaf Davies, Rosa Hunt a Densil Morgan

Sefydlu'r Llywydd Newydd: Bill Davies
Buddsoddi yn y Dyfodol
Lansio Apêl Cymorth Cristnogol UBC

Manylion pellach ar gael oddi wrth: post@ubc.cymru

# "Bydd un genhedlaeth yn dweud wrth y nesaf" – trafodaeth ar efengylu i wahanol genedlaethau yng ngŵyl Llanw




Mae pob un ohonom wedi ein siapio i ryw raddau gan y byd o'n cwmpas – gan ein ffrindiau a'n teuluoedd, diwylliannau'r dydd, digwyddiadau hanesyddol, datblygiadau mewn technoleg ac ati. Oherwydd y dylanwadau ffurfiannol yma, mae ymchwilwyr yn tybio fod yna wahaniaethau mawr rhwng pobl a anwyd mewn cyfnodau gwahanol, a bod hyn wedyn yn ymddangos fel gwahaniaethau yn ein gwerthoedd, ein credoau a'n barn, oherwydd i ni weld y byd drwy fydolwg gwahanol.

Efallai eich bod yn gyfarwydd â'r term Saesneg *Baby boomers*; dyna'r genhedlaeth a anwyd rhwng oddeutu 1946 ac 1964. Dyma i chi genhedlaeth o weithwyr caled oedd yn tueddu i aros yn yr un swydd am gyfnod hir, pobl oedd yn safio cyn prynu, wedi eu hysgogi'n gryf gan gyfrifoldeb a dyletswydd.

Yna, daw Cenhedlaeth X, a anwyd rhwng oddeutu 1965 ac 1981. Yn wahanol i'r genhedlaeth o'u blaen, mae'r genhedlaeth yma'n hapus i newid swydd os nad yw'r cyflogwr yn un da, neu os ydy'r gwaith yn effeithio ar eu bywydau personol. Credir eu bod yn bobl hyblyg ac anffurfiol, pobl sy'n gwybod pwysigrwydd cael balans rhwng bywyd gwaith a'u bywyd cymdeithasol. Mae'r genhedlaeth hon yn cofio bywyd cyn ymosodiad 9/11.

Ganwyd y *Millennials* rhwng oddeutu 1982 a 1994. Mae'r rhyngrwyd yn hollbwysig i'r genhedlaeth hon; maent hefyd yn cyfathrebu dipyn drwy negeseuon tecst a WhatsApp. Mae'r genhedlaeth hon yn awyddus i dderbyn buddsoddiad personol ac yn debygol o adael swydd os nad ydy'r swydd yn eu datblygu nhw'n bersonol.

Ar ôl y *Millennials* daw Cenhedlaeth Z, a anwyd rhwng oddeutu 1995 a 2012. Dydy'r genhedlaeth yma ddim yn cofio bywyd cyn 9/11 ac maen nhw wedi byw drwy gyfnodau economaidd anodd. Dyma genhedlaeth y cyfryngau cymdeithasol, ac mae hunaniaeth (beth bynnag y bo) yn beth pwysig iddynt. Fe'i dilynir gan Genhedlaeth Alffa, a anwyd rhwng oddeutu 2013 a 2025.

Yng ngŵyl Llanw eleni, cafwyd cyfle i wrando ar banel o oedolion ifanc yn eu harddegau a'u hugeiniau yn trafod y sialensau a'r cyfleoedd sydd yna wrth iddynt fyw yn ddisgyblion i Iesu Grist. Trafodwyd y perygl o gyffredinoli a defnyddio ystrydebau wrth




Sian yn arwain yr addoliad yng Ngŵyl Llanw gyda Meilyr Geraint, Rhodri Darcy, Rhys Huws a Phil Wyman.

drafod gwahanol genedlaethau, a sut roedden nhw'n meddwl fod pobl eraill yn disgrifio'u cenhedlaeth nhw. Dyma'r ystod oedran fu'n astudio ar gyfer arholiadau Lefel A neu radd yn ystod y pandemig, ac fe drafodwyd yr effaith gafodd hyn ar iechyd meddwl eu cenhedlaeth, a'r unigrwydd o orfod hunanynysu a chael eu haddysgu gartref. Dau beth ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd pwysigrwydd cymuned a chael ffrindiau da o bob oedran. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael cyfle i drafod materion cyfoes y dydd o fewn cymuned ddiogel yr eglwys, yn lle troi at y 'byd' am atebion, yn enwedig ar faterion sy'n perthyn i hunaniaeth, rhywedd a rhywioldeb. O ran rhannu eu ffydd, soniodd y panel am rôl a phwysigrwydd gweddi, sut maent yn gwneud ffrindiau, a sut maent yn rhannu'n barchus am Iesu gydag eraill.

Bwriad y seminar oedd agor trafodaeth am y gwahaniaethau sydd yna rhwng pobl o wahanol oedrannau am fod hyn yn medru effeithio ar y ffordd rydym yn byw a bod, sut rydym yn meithrin perthynas efo'r Arglwydd, sut rydym yn efengylu, a'r ffordd 'dan ni'n trefnu ein hoedfaon. Mae'n bwysig ein bod ni'n cydnabod fod yna wahaniaethau o fewn ein cynulleidfaoedd, a bod hyn ddim yn rhwystr ond yn gyfle i ddod i adnabod ein gilydd yn well, a'n bod ni'n medru cydweithio wrth rannu ein ffydd gydag eraill.

*Sian W. Rees*


## Gofalaeth Bro Morgannwg

**Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn ddiwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel, Penarth.**

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries,
Ysgrifenyddes Bethel.
Ffôn: 02920 700272
Symudol: 07891 587373
e-bost: alwenaharries@gmail.com

# Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd

Tro Merched Henaduriaeth Trefaldwyn oedd rhoi cartref i'r Dathliad Cenhadol eleni, ac fe gawsom groeso arbennig yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth, bnawn Iau, 4 Mai. Canwyd ychydig o emynau cyn dechrau'r cyfarfod dan arweiniad Mr Tecwyn Jones, gyda Gwenan Jones, yr organyddes, yn cyfeilio. Llwyddwyd i greu naws hyfryd a'n paratoi at y dathliad.

Cawsom groeso arbennig gan Lywydd Pwyllgor y Merched, Eirian Jones, Carrog, a'n heriodd i chwalu ffiniau a bod yn llawen. Anogodd ni i ddal ati i gefnogi prosectiau lleol.



Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd, Capel Maengwyn, Machynlleth

Cafwyd gwasanaeth dechreuol bendithiol iawn gan Dorothy Pugh, aelod yng Nghapel Maengwyn. Darllenodd o Efengyl Ioan ac o'r Corinthiaid, lle cyfeirir at y winwydden a'r canghennau, sy'n cyd-fynd â'n thema eleni. Yna, fe'n harweiniodd mewn gweddi ddwys.

Pleser pur oedd gwrando ar ddisgyblion Ysgol Gynradd Bro Hyddgen yn rhoi datganiad cerddorol dan arweiniad Heledd Besent, gyda Caryl Morgan yn cyfeilio. Roedd eu datganiad a'u hanwyldeb yn codi calon pob un oedd yn bresennol. Cyflwynwyd anrheg i bob un ohonynt gan Chwiorydd Maengwyn ynghyd â Beibl i'r ysgol i gofio am yr amgylchiad. Roedd hyn yn ychwanegu at lawenydd y dathliad.

Yn dilyn hyn, gwnaed y casgliad, a fendithiwyd gan Beryl Vaughan, Llanerfyl.

Cyflwynodd Carys Davies lyfryn ein thema am eleni, sef *Bywyd Iesu, y Wir Winwydden*. Ceir ynddo syniadau am wahanol weithgareddau sy'n ein hannog i ddathlu, i obeithio yn Iesu Grist ac yn ei fywyd. Derbyniodd pob Henaduriaeth gopïau o'r llyfryn i'w dosbarthu. Diolchodd y Llywydd i Carys Davies a Sarah Morris am eu gwaith diflino gyda'r llyfryn ac i bawb arall oedd wedi eu cynorthwyo. Gwerthfawrogwyd hefyd yr astudiaeth Feiblaidd a gynhaliwyd dros Zoom dan arweiniad y ddwy.

Cafwyd croeso twymgalon gan Ceinwen Parry ar ran Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain i Ddathliad y Merched yn 2024. Bydd yn cael ei gynnal ar 2 Mai yng Nghapel Bethesda, yr Wyddgrug.

Diolch oedd neges Menna Jones, y Trysorydd, i bawb oedd wedi cyfrannu mor anrhydedddus. Bydd hyn yn ein galluogi i gefnogi Prosectiau Gartref a Thramor.

Y Llywydd gyflwynodd y wraig wadd, sef Nerys Siddall, Rheolwr a Swyddog Addysg Canolfan Byd Mari Jones, y Bala. Cawsom sgwrs gartrefol a phersonol iawn ganddi, a chyfeiriodd at rai pobl oedd wedi dylanwadu'n gryf arni – pobl fel yr annwyl ddiweddar Beryl Brynmor Jones ac, ers iddi symud i Lanuwchllyn, Mary Thomas. Roedd llwyddiant ei gwaith yn dibynnu ar fendith Duw, oherwydd ni yw'r canghennau a'n braint yw dwyn ffrwyth i Dduw. Ni allwn wneud



Nerys Siddall yn annerch


DIM heb ffydd yn Nuw, y Duw byw. Rhaid i ffydd fod yn allweddol yn ein bywyd, yn ganolog yn ein bywyd ac yn gynhaliaeth i'n bywyd. Dyna yw'r boncyff sy'n cynnal y canghennau: 'bara ein bywyd, cynnal ni'.

Mae cenhadon eisiau rhannu'r ffydd, fel y gwnaeth Thomas Charles hefo Mari Jones, ond mae her y cynhaeaf yn fawr a'r gweithwyr yn brin. Mae Canolfan Mari Jones yn dal yma; rydym ni'n dal yma. Felly, llawenhawn ein bod eisiau parhau yn y gwaith, ac mae i bob ardal ei hanghenion ei hun. Mae Duw yn cwmpasu pawb, fel mae'r ardd Gristnogol maent wedi ei chreu yng Ngofalaeth Llanuwchllyn. Roedd ffenest liw mewn capel yng Nghaerdydd hefyd wedi cael cryn ddylanwad ar Nerys, gyda gwahanol eiriau wedi'u hysgrifennu ar y paneli, fel cariad, cyfiawnder, daioni, prydferthwch, ac enwi rhai yn unig. Dyma hadau'r efengyl yr oedd Crist yn ei pregethu ac yn ei dangos inni yn ei weinidogaeth. Rhaid dychwelyd i fod yn genhadon, gyda ffydd yn ganolbwynt i'r holl waith.

Diolchwyd i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw fodd i sicrhau dathliad mor fendithiol gan y Llywydd. Yn naturiol, roeddem yn troi am adref yn sŵn yr emyn 'Diolch i Ti, yr hollalluog Dduw', wedi ein hannog i wynebu heriau ein hoes ac i weithio dros deyrnas ein Harglwydd, Iesu Grist. Awn allan – ni yw'r canghennau. Mae'r gweithwyr yn brin, ond Crist yw'r boncyff sydd yn ein cynnal bob amser.

*Meinir Lloyd Jones*

**ADNABOD**




Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 25 Y Duw sy'n ddigonol (rhan 2)

### Darllen: Genesis 18:1–15

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 18)

Wedi edrych ar yr hanes yr wythnos ddiwethaf o safbwynt y lletygarwch sy'n dod â bendithion annisgwyl, y tro hwn mi wnawn ystyried cynnwys y digwyddiad ychydig yn fwy manwl. Mae'r adnod gyntaf yn dweud yn glir pwy sy'n ymweld: 'Ymddangosodd yr ARGLWYDD i Abraham'. Ac fel yng ngweddill ein Beiblau, mae'r defnydd o briflythrennau'n ein hatgoffa mai enw Duw, Yahweh, sy'n cael ei grybwyll. Er bod Abraham yn cyfeirio ato fel 'f'arglwydd' yn adnod 3, mae'n amlwg mai araf oedd Abraham i ddeall hynny. Anodd bod yn siŵr a oedd y bwyd a ddarparwyd yn y diwedd, y wledd frenhinol yma'n arwydd ei fod yn sylweddoli bod y gwesteion yn fwy na phobl gyffredin. Ond mae'n glir fod Abraham wedi sylweddoli hyn yn ddiweddarach.

Gyda golwg ar y wledd ei hun, gan fod Abraham eisoes wedi ei berswadio am yr addewid ac wedi enwaedu'r bechgyn fel arwydd ei fod yn credu Duw, tebyg mai gwledd oedd hon i gadarnhau ffydd Sarah. Tebyg nad oedd hi wedi dod i'r un fan, a phwy a ŵyr nad anallu Abraham oedd hynny. Beth bynnag, mae'r lletygarwch cyffredin a hael yma'n troi'n wledd gyfamodol, gwledd, fel ein Cymundeb ni, sy'n ein hatgoffa am addewidion cyfamodol Duw. Mae 'bwyta', yn ôl Ioan 6:56, yn arwyddo credu, yn arwyddo ffydd yn Iesu, ac yn hynny mae Paul yn galw pob un ohonom i'w 'holi ei hunan, ac felly bwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan' (1 Corinthiaid 11:28).

O ran Sarah, mae'r addewid yn anghredadwy: 'Yr oedd Abraham a Sara yn hen, mewn gwth o oedran, ac yr oedd arfer gwragedd wedi peidio i Sara. Am hynny, chwarddodd Sara ynddi ei hun, a dweud, "Ai wedi imi heneiddio, a'm gŵr hefyd yn hen, y caf hyfrydwch?"' (11–12) Tebyg ei bod wedi clywed am yr addewid gan Abraham (17:15–21), ond mae Duw, drwy'r wledd hon, am sefydlu ei addewid, ei gyfamod o fewn perthynas, perthynas sy'n cael ei gweld yn glir o amgylch y bwrdd. Ar waethaf hynny, ei hymateb yw chwerthin 'ynddi ei hun'. Ond nid yw hynny'n guddiedig oddi wrth yr Arglwydd. Roedd hon, oedd i fod yn fam i genedl, i frenhinoedd, yn mynd i fod yn fam i Dafydd. Mae hwnnw yn ei dro yn adrodd am Dduw yn Salm 139: 'ARGLWYDD, yr wyt wedi fy chwilio a'm hadnabod. Gwyddost ti pa bryd y byddaf yn eistedd ac yn codi; yr wyt wedi deall fy meddwl o bell; yr wyt wedi mesur fy ngherdded a'm gorffwys, ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd. Oherwydd nid oes air ar fy nhafod heb i ti, ARGLWYDD, ei wybod i gyd' (1–4).

Roedd Hagar eisoes wedi dysgu hyn ac yn cydnabod hynny wrth enwi'r mab yn Ismael, y Duw sy'n gwybod. Mae Ioan yn ein hatgoffa: 'oherwydd y mae Duw yn fwy na'n calon, ac y mae'n gwybod pob peth' (1 Ioan 3:20). Ac felly'r awdur at yr Hebreaid: 'Nid oes dim a grëwyd yn guddiedig o'i olwg, ond y mae pob peth yn agored ac wedi ei ddinoethi o flaen llygaid yr Un yr ydym ni i roi cyfrif iddo' (Hebreaid 4:13). Dyma'r Duw sydd erioed wedi gorfod dyfalu, erioed wedi ei synnu gan ddim.

Yng ngeiriau A W Tozer:

> Gŵyr Duw ar unwaith ac yn ddiymdrech bob mater a'r holl faterion, pob meddwl a meddwl pawb, pob ysbryd a pob un ysbryd, pob bod a phob un bod, pob creadigaeth a phob un creadur, pob amrywiolyn a phob lluosogrwydd, pob cyfraith a phob deddf, pob perthynas, pob achos, pob meddwl, pob dirgelwch, pob enigma, pob teimlad, pob dymuniad, pob cyfrinach, pob gorsedd ac arglwyddiaeth, pob personoliaeth, pob peth gweledig ac anweledig yn y nef a'r ddaear, mudiant, gofod, amser, bywyd, marwolaeth, da, drwg, nefoedd, ac uffern.

Os yw Duw yn 'gwybod', fe all Duw 'wneud'; ac felly nid yw ymateb ffydd yn ddim ond cydnabod y ffaith nad oes dim yn amhosibl, yn anodd i Dduw. A dweud y gwir, gellir cyfieithu'r ymadrodd 'A oes dim yn rhy anodd' fel, 'a oes dim yn anghredadwy', neu 'yn rhy ryfeddol'. Dyma'r union air sy'n cael ei ddefnyddio fel un o'r disgrifiadau o Iesu yn Eseia 9:6 – 'Cynghorwr **rhyfeddol**'. Yn Luc 1:34–5, mae Mair yn holi: '"Sut y digwydd hyn, gan nad wyf yn cael cyfathrach â gŵr? Atebodd yr angel hi, "Daw'r Ysbryd Glân arnat, a bydd nerth y Goruchaf yn dy gysgodi."' Er mai cenhedliad naturiol fyddai cenhedliad Isaac, fel yn achos Mair, 'nerth y Goruchaf' oedd yn gwneud yr hyn oedd yn ymddangos fel peth amhosibl yn bosibl i Abraham a Sarah.

Er bod hwn yn ddigwyddiad dieithr i ni, ac mewn sawl ystyr yn ddigwyddiad eithriadol, mae'n ddigwyddiad sy'n ein hatgoffa o'r hyn sy'n wir am ein gorffennol ni, ac am ein dyfodol. Meddyliwch am gwestiwn Nicodemus ac ateb Iesu: '"Sut y gall neb gael ei eni ac yntau'n hen?" … Atebodd Iesu: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r Ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw … Paid â rhyfeddu imi ddweud wrthyt, "Y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd"' (Ioan 3:4–5,7) Mae pob Cristion yn gwybod am 'gael ei eni', ac wrth edrych ymlaen, yn edrych ar gael eu geni eto i fywyd atgyfodedig: 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych fod amser yn dod, yn wir y mae yma eisoes, pan fydd y meirw yn clywed llais Mab Duw, a'r rhai sy'n clywed yn cael bywyd' (Ioan 5:25).

1. Beth am Dduw ac am ei addewidion sydd yn gwneud ei air a'i addewid yn 'anghredadwy' i chi?
2. Mae nifer o eglwysi bellach yn gwneud llawer o'i gwaith ymestynnol, fel cyrsiau Alffa ayyb, dros bryd o fwyd. Sut mae diogelu ein bod yn creu perthynas gyda'r nod o gyflwyno pobl i berthynas â Duw?
3. 'Mae Duw yn gwybod popeth ac yn cofio popeth, ac eithrio pechod ei blant.' Sut mae hollwybodaeth Duw pob gras yn ein cadw ni rhag pechod, ond yn ein cadw ni hefyd rhag condemniad pechod?

**S4C** *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**28 Mai – Sulgwyn**
Bydd Nia Roberts yn encilfa Ffald y Brenin ym Mro Preseli i nodi carreg filltir bwysig yn y calendr Cristnogol, y Sulgwyn. A chawn fwynhau perfformiad hudolus gan Elain Llwyd.

**BBC radio cymru** *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 28 Mai, am 7:30yb**
Rhaglen o emynau William Williams, Pantycelyn, ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

**Sul, 28 Mai, am 12:00yp**
Pantycelyn – Vaughan Roderick a'i chwaer Sian sy'n ceisio dysgu rhagor am William Williams, Pantycelyn

**Sul, 28 Mai, am 4:30yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri

# O Gefn Gwlad



## Ymddatod

*Er bod penderfyniad gwreiddiol yr Eisteddfod Genedlaethol i gwtogi nifer y corau fydd yn ymddangos ar lwyfan y Brifwyl wedi ei wyrdroi am eleni, bydd y cwestiwn yn codi ei ben unwaith eto ymhen y flwyddyn, os cywir yr adroddiadau.*

Pan glywais am fwriad y Steddfod, yn ôl pob sôn, i ganiatáu dim ond tri chôr i ymddangos ar y prif lwyfan yn y Genedlaethol eleni, fe gofiais am fy mam, fyddai wrthi'n barhaus, fel y rhan fwyaf o wragedd ei hoes, yn diddiwedd weu sanau neu siwmperi neu sgarffiau. Os oedd o'n digwydd i raddau oherwydd diddordeb yn y grefft, roedd yn bendant yn digwydd oherwydd rhaid. A byddai'r dilledyn terfynol, yn enwedig os defnyddiwyd pwythau a lliwiau arbennig, yn greadigaeth tu hwnt o gymhleth ac yn wead artistig.

Weithiau, fodd bynnag, fe fyddai yna ddatod y pwythau, pan nad oedd popeth yn gweithio fel y dylai, neu pan gollid pwyth fyddai'n gadael twll yn y gweu, a hynny'n achosi nam yn y dilledyn terfynol. Roedd y dad-wneud yn dristwch, ac yn dwyn amser, ond gwead y gwrthrych terfynol oedd yn bwysig.

Y mae yna, fodd bynnag, mewn bywyd wead mwy cymhleth na dilledyn wedi ei weu, a hwnnw yw gwead cymdeithas. Ystyriwch fod teulu neu ardal neu wlad yn llawn o unigolion, pob un yn bersonoliaeth wahanol, pob un gyda'i feddwl ei hun yn gallu byw mewn harmoni, a chynnal yr heddwch. O ystyried y plannwyd ym mhob un ohonom i raddau mwy neu lai uchelgais i ddod ymlaen yn y byd neu i fod yn well na phawb arall, y mae'r harmoni hwn yn wyrth.

Sut y daeth i fod a sut y cynhelir ef? Onid i raddau helaeth trwy wead cymdeithas? Y dod at ein gilydd i gydymwneud yn yr agweddau hynny ar fywyd y mae gennym ddiddordeb ynddynt? Mi wyddom beth ydynt: clybiau chwaraeon o bob math, cymdeithasau diwylliannol amrywiol eu ffocws, cyfarfodydd crefyddol, unrhyw weithgarwch lle y gall nifer o bobol gyda'r un diddordeb ac amcan ddod at ei gilydd i gydymwneud a rhannu.

A byddaf yn meddwl am hyn bob tro yr eisteddaf yn y pafiliwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn gwrando ar gorau a phartïon o bob maint a safon, ie, o amrywiol safon. Meddwl eu bod un ac oll yn gymdeithasau sy'n cyfarfod yn ystod misoedd oerion y gaeaf mewn festrïoedd a neuaddau a chlybiau i baratoi ar gyfer yr ŵyl. A bod y cydgyfarfodydd hyn a'r dygn baratoi yn rhan o wead cymhleth yr Eisteddfod, ac yn ymestyn trwy Gymru gyfan ac weithiau'r tu hwnt hefyd, a'r gwead hwn yn hanfodol i undod cenedl.

Ac fel y mae yna dristwch wrth ddatod dilledyn y bu ei weu yn broses ofalus gymhleth, y mae yna dristwch pan welir dadfeilio ar gymdeithasau.

Wrth gyfyngu ar nifer y corau gaiff ymddangos ar lwyfan y Genedlaethol, y mae awdurdodau'r Eisteddfod yn gwneud yr union beth hwnnw: gwrthod i'r corau eu hawr o orfoledd a'u huchafbwynt ar lwyfan – yn enw beth? Safon? Ie, y safon hollbwysig y mae rhai, mae'n amlwg, yn ei hystyried yn bwysicach na chymryd rhan. Onid yw safon yn cael ei diogelu beth bynnag trwy wobrwyo'r goreuon yn unig? Ond nid digon hyn gan rai, mae'n ymddangos.

Beth ar y ddaear sydd a wnelo'r penderfyniad eisteddfodol ag erthygl i *Cenn@d* fe glywaf rai ohonoch yn gofyn? Hyn. Y mae pob tanseilio ar gymdeithas fel gollwng pwyth mewn dilledyn, ac os yw'n digwydd yn y byd diwylliannol gyda help awdurdodau'r Eisteddfod, pa faint mwy y digwyddodd ac y deil i ddigwydd ym myd crefydd? Pob capel sy'n cau yn symbol o gymdeithas wedi dod i ben, pob dirywiad yn ein hymwneud, yn ein presenoldeb yng nghyfeillach y capel yn dyllau dirifedi yn nilledyn ein cymdeithas fel cenedl. Am ba hyd y pery dilledyn felly, ac am ba hyd y pery cymdeithas yn gymdeithas wâr yn wyneb yr ymddatod difrifol hwn?

*Elfyn Pritchard*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## 'Tyrd, Ysbryd Glân'

**Emyn 570 'Greawdwr ac Iachawdwr glân'**

**Darlleniad – Ioan 7:37–9**

**Gweddi**

Arglwydd Iesu, ynot ti y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio'n gorfforol. Rhyfeddwn at aruthrol fawredd dy berson. Ynot ti y datguddir mawredd cariad Duw y Tad tuag at euog fyd. Arglwydd Iesu, addewaist y câi pob un a ddeuai atat, gan gyffesu ei syched, ei lenwi â'th Ysbryd Glân. Ysbryd Glân, diwalla ddyhead ein calonnau. Tywys ni i adnabod y Mab. Gogonedda'r Tad yn ein plith. Dduw sanctaidd, addolwn di. Amen.

**Darlleniad – Actau 1:6–11; 2:1–13**

**Edrych a chofio – Pasg, cynhaeaf, rhodd oddi uchod ...**

Aeth hanner cant o ddyddiau heibio ers i boblogaeth Jerwsalem ddathlu'r Pasg. Bryd hynny roedd cenedl gyfan yn cofio am yr Exodus o'r Aifft, am weithred achubol, greadigol a gwaredigol yr Arglwydd.

Pum deg o ddiwrnodau wedi'r Pasg cynhelid gŵyl amaethyddol y 'Pentecost'. Gŵyl o ddiolchgarwch ydoedd. Bryd hynny, cyflwynid blaenffrwyth y cynhaeaf ŷd i'r Arglwydd. Ac yn y diolchgarwch roedd gweddi a gobaith y deuai gweddill y cynhaeaf i'w aeddfedrwydd toreithiog.

Ond i Iddewon selog, fel y bobl oedd wedi aros yn Jerwsalem ers y Pasg, roedd arwyddocâd mwy i'r Pentecost na diolch am gynhaeaf yn unig. Cofient, adeg y Pentecost, fod Moses, bum deg o ddiwrnodau wedi i lwythau Israel adael yr Aifft, wedi dychwelyd o gopa mynydd Sinai gyda'r 'Deg Gorchymyn' gan Dduw i'w bobl. Oherwydd gweithredoedd achubol Duw roedd y bobl wedi derbyn cyfamod ac wedi ymrwymo ar ei sail i fyw bywydau gwahanol i'r bobloedd o'u hamgylch.

**Edrych eto!**

I Gristnogion, roedd yr adleisiau ynghlwm â'r ŵyl yn rhyfeddol. Roedd Iesu wedi ei aberthu fel oen y Pasg ac wedi sicrhau Exodus amgenach a rhagorach na Moses. Drwy ei aberth roedd wedi cymodi'r byd gyda Duw. Bu farw. Claddwyd ef. Atgyfododd, daeth yn gorfforol fyw, o'r bedd. Atgyfododd, yn flaenffrwyth y bywyd newydd, yn rhagflas ac yn sicrwydd o'r atgyfodiad a ddeuai i'r rhai a gredai ynddo. Roedd grym newydd ar waith a blaenffrwyth y cynhaeaf tragwyddol wedi ei gyflwyno.

Deugain niwrnod wedi ei atgyfodiad dyrchafwyd Iesu. Cyhoeddwyd bod Iesu yn Arglwydd i'r holl fyd, yn wir, yn Arglwydd y byddai pob glin ym mhob man, ym mhob oes, yn plygu iddo. Ac arwydd o'i lywodraeth oedd y byddai, fel Moses gynt, yn cyflwyno rhodd i'w bobl. Ond nid rhodd fel rhodd Moses o 'gyfraith' i genedl arbennig, wedi ei naddu ar lechen oer, oedd y rhodd hon. Arwydd o goncwest ac arglwyddiaeth Iesu Grist oedd tywalltiad yr Ysbryd Glân (Effesiaid 4:7–8) ar genhedloedd y byd ddeng niwrnod yn ddiweddarach. Drwy'r tywalltiad grasol hwn ar ei eglwys datgelwyd bod pob un, ym mhob man, i glywed am fawrion weithredoedd Duw yn eu hiaith eu hunain.

**Emyn 571 'Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni'**

**Darlleniad – Actau 2:14–24**

**Edrych eto, eto**

**Dehongli**

Sylwodd cynulleidfa niferus yng nghynteddau'r deml ar ryw ddwsin o ddynion ifanc, ynghyd â chwmni o tua 120 o bobl eraill, oedd yn amlwg wedi eu cynhyrfu gan brofiadau anarferol. 'Wedi meddwi' oedd yr apostolion, yn ôl y dyrfa.

Mae yna bethau na welodd llygad ac na chlywodd clust ac na ddaeth i feddwl daearol ond sy'n deillio o weithgarwch mewnol yr Ysbryd Glân. Cafodd magwraeth, cyflwr economaidd, pwysau cymdeithasol, emosiwn neu ddylanwad arweinwyr carismataidd oll eu defnyddio i gamddehongli realiti'r profiad byw a gydiodd ynom.

Os yw dyfodiad y Gair yn gnawd yn heriol i ni, neu'r cyhoeddiad am atgyfodiad corfforol Iesu Grist yn peri i ni faglu, cawn ein tramgwyddo ymhellach, mae'n siŵr, gan argyhoeddiad y Testament Newydd, sef bod yr 'ysbrydol' tragwyddol yn *ymostwng* i ddod yn realiti byw, mewn llestri o bridd, drwy'r Ysbryd Glân.

**Egluro profiad**

Nid oedd meddwdod yn egluro'r ffenomenau dramatig. Roedd sail gadarnach i'r profiadau ecstatig na hynny. Mynnodd Pedr mai cyflawniad o addewidion Duw drwy'r Ysgrythurau oedd yr unig ffordd ddigonol i ddeall yr hyn a ddigwyddodd iddynt. Er y gallai Pedr fod wedi cyfeirio at addewidion am dywalltiad yr Ysbryd yn Eseia, yn Eseciel neu yn Seffaneia, dewisodd graffu ar yr addewid a wnaed trwy Joel.

Roedd am i'w wrandawyr ddeall bod tywalltiad yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost o *bwys eschatolegol*. Roedd yn arwydd o'r 'dyddiau olaf, medd Duw'. Ymestyn y 'dyddiau olaf' o ddyfodiad Iesu i'r byd, ei groeshoeliad, ei atgyfodiad a thywalltiad ei Ysbryd ar y byd hyd nes y daw i gwblhau ei weithgarwch achubol yn y byd ar ddiwedd amser. Arwydd oedd tywalltiad yr Ysbryd o weithgarwch Duw 'cyn i ddydd mawr a disglair yr Arglwydd ddod' yn derfynol.

Roedd *chwyldro* yn y tywalltiad. Mor rhyfeddol oedd yr ymyrraeth hon nes bod yn rhaid i Joel fenthyg iaith apocalyptaidd am dân a mwg ac arwyddion yn y nefoedd er mwyn cyfleu ei ddirgelwch ofnadwy (Actau 2:18–19).

Perthynai *ehangder* i'r tywalltiad. Nid profiad ar gyfer offeiriaid neu broffwydi penodol, neu fel ymweliad dros dro i nerthu barnwyr neu frenhinoedd unigol i gyflawni eu gorchwyl penodol oedd tywalltiad yr Ysbryd. Roedd yr Ysbryd yn cael ei dywallt 'ar bawb' – boed yn wryw neu'n fenyw, yn ifanc neu'n oedrannus. Byddai pob un yn cael ei nerthu i 'broffwydo', i gyhoeddi ac i rannu gair yr Arglwydd (17–18).

Roedd tywalltiad yr Ysbryd yn *addewid* ac yn argyfwng yr un pryd. Deuai cyfyngder i'r rhai a wrthodasant yr Arglwydd a'i ymweliad. Ond byddai'n awr o ryddhad i bob un sy'n derbyn Arglwyddiaeth y Meseia. Byddai 'pob un' sy'n galw ar yr Arglwydd yn cael ei achub (adn. 21).

Ond nid hanes am yr Ysbryd Glân a phrofiadau ecstatig mo'r Pentecost. Tywalltiad grasol oedd yn coroni gweithgarwch Duw, drwy ardystio i fuddugoliaeth Duw, dros angau a phechod dynolryw a marwolaeth ei hun ydyw. Yn y bôn neges am Iesu yw'r Pentecost. Iesu a groeshoeliwyd. Iesu a atgyfodwyd. Iesu a drodd rym difaol angau yn wewyr genedigaeth, yn boenau creadigaeth newydd. Wedi'r cyfan, 'nid oedd dichon i angau ei ddal yn ei afael'.

**Gweddi**

Arglwydd Iesu, caniatâ i ninnau adnabod heddiw ryfeddod dy waith yng nghalonnau dy bobl, drwy greadigaeth dy eglwys a chynhaliaeth dy bobl yn y byd. Caniatâ i ninnau, dy bobl sychedig, ddychwelyd atat i'n disychedu. Tywallt arnom drachefn, a thrachefn, a thrachefn yr Ysbryd Glân i'n goleuo, ein bywhau, ein cyffroi, a'n galluogi i fod yn Eglwys ffyddlon i ti heddiw. Amen.

**Emyn 597 'O Ysbryd byw, dylifa drwom'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru